# Pwyllgor Y Ty

## HC(2)-09-05 (p.4)

### 20 Hydref 2005

## Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005

### Diben

1. Rhoi trosolwg i'r Pwyllgor ar oblygiadau'r Dyletswydd Cydraddoldeb Anabledd a roddir ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol) 2005.

### Cefndir

2. Ar 22 Medi 2005, cafodd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal eu hysbysu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru o'r dyletswyddau penodol i ddrafftio a gweithredu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd a roddir ar gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru, o dan y Rheoliadau Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (Awdurdodau Cyhoeddus) (Dyletswyddau Statudol).

3. Cafodd y Rheoliadau Drafft eu hystyried gan y Pwyllgor Busnes ar 4 Hydref lle cytunwyd y dylid hysbysu Pwyllgor y Ty a'r Pwyllgorau Pwnc. Ysgrifennodd y Gweinidog Busnes at Gadeiryddion y Pwyllgorau ar 5 Hydref. Dosbarthwyd y llythyr hwn a'r Rheoliadau Drafft yng Nhgyfarfod Pwyllgor y Ty ar 6 Hydref. Mae'r rhain ynghlwm yn Atodiad 1. Bydd dadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn ar 19 Hydref 2005.

4. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad, daw'r Rheoliadau i rym ar 5 Rhagfyr 2005 pan gyhoeddir y Codau Ymarfer.

## Materion

### Dyletswydd Cyffredinol

1. Mae Adran 49A(1) o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, yn rhoi dyletswydd newydd ar y sector cyhoeddus i hybu cyfle cyfartal i bobl anabl.

2. Yn ôl y ddeddfwriaeth, mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus roi ystyriaeth briodol i'r canlynol wrth gyflawni ei swyddogaethau:

- hybu cyfleoedd cyfartal;
- dileu gwahaniaethu neu aflonyddu anghyfreithlon;
- hybu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl;
- annog pobl anabl i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus;

- ystyried anghenion pobl anabl, hyd yn oed pan fo hynny'n golygu trin pobl anabl yn fwy ffafriol na phobl eraill.

## Cynllun Cydraddoldeb Anabledd

3. Yn ychwanegol at y dyletswyddau cyffredinol hyn, bydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o ddyletswyddau penodol fel y'u pennir yn y rheoliadau, gan gynnwys drafftio, gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar Gynllun Cydraddoldeb Anabledd.

4. Rhaid i Gynllun Cydraddoldeb Anabledd ddangos:

- cynlluniau gweithredu dros gyfnod o dair blynedd i gyflawni'r dyletswydd cyffredinol a amlinellir uchod;
- y ffordd y mae pobl anabl wedi bod ynghlwm wrth y gwaith o gynhyrchu'r cynllun a'r cynllun gweithredu;
- sut y bydd effaith y gweithgareddau presennol a'r gweithgareddau arfaethedig yn cael eu hasesu;
- sut y bydd gwybodaeth am effaith y polisïau a'r dulliau gweithio ar bobl anabl yn cael ei chasglu a'i defnyddio i adolygu cynnydd ac i baratoi cynlluniau yn y dyfodol.

5. Bydd angen i'r cyrff cyhoeddus y mae'r Rheoliadau'n berthnasol iddynt gyflwyno Cynllun Cydraddoldeb Anabledd erbyn mis Rhagfyr 2006.

6. Yn ogystal â Chynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd y dyletswyddau penodol i ddrafftio, gweithredu a chyflwyno adroddiadau ar Gynllun Cydraddoldeb Anabledd hefyd yn berthnasol i nifer o Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gan gynnwys:

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru
- Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru

## Dyletswydd i Hybu Cydraddoldeb i Bobl Anabl

7. Yn ôl y Rheoliadau hyn hefyd bydd yn ofynnol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gwahanol Ysgrifenyddion Gwladol gyhoeddi adroddiad yn cynnwys trosolwg o'r cynnydd a wneir o ran sicrhau cyfle cyfartal i bobl anabl mewn awdurdodau cyhoeddus o fewn y meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt. Bydd yr adroddiad hwn yn amlygu strategaethau'r Cynulliad ar gyfer cydgysylltu a bwrw ymlaen â'r gwaith. Caiff adroddiad ei gyhoeddi bob tair blynedd a bydd angen cyhoeddi'r cyntaf erbyn 1 Rhagfyr 2008 fan bellaf.

## Cydymffurfio

8. Bydd y dyletswyddau a amlinellir uchod yn berthnasol i gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae papur Llywodraeth y Cynulliad, sydd ynghlwm yn Atodiad 2, yn nodi bod yr Adran Gwaith a Phensiynau wedi ymrwymo i newid y Rheoliadau yn unol â chynigion y Papur Gwyn yn ôl yr angen i adlewyrchu'r setliad datganoli newydd.

## Goblygiadau Ariannol

9. Bydd nfer o oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â gweithredu'r Rheoliadau hyn. Mae gan y Grwp Llywio Cydraddoldeb GSC gylch gwaith sy'n arwain ar faterion ac amcanion cydraddoldeb ar gyfer GSC yn fwy cyffredinol, a bydd yn gweithio i bennu'r rhain a bydd yn cyflwyno adroddiad yn rheolaidd i Bwyllgor y Ty.

## Argymhellion

10. Bod y Pwyllgor yn:-

- nodi effaith bosibl y Rheoliadau a'r gofyniad i baratoi Cynllun,
- cadarnhau y gelli datblygu Cynllun Cydraddoldeb Anabledd corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gydag adran benodol o Wasanaeth Seneddol y Cynulliad y gellid ei haddasu os daw'r cynigion gwahanu'n ddeddf yn 2007.